WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Tracey Lee
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 10 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 514A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **26** |

Annwyl Tracey

## Asesiad o Welliant

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu mewn perthynas ag a yw Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r canlynol:

- fy marn ar a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliannau;
- fy marn ar a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella a chynigion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion a/neu argymhellion pellach ar gyfer gwella; a
- diweddariadau i gynllun gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac amserlen ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad o Welliant.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr pellach erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliannau o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn gan fod fy ngwaith archwilio ac asesu wedi gweld bod y Cyngor wedi pennu chwe blaenoriaeth a chanlyniad gwella pum mlynedd trosfwaol a 24 o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 yn ei ddogfen *Cynllun Gwella 2012-2013* (y Cynllun).

Adolygodd y Cabinet y Cynllun ym mis Gorffennaf 2012, ond ni chafodd ei gyhoeddi tan 26 Medi. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i gyhoeddi ei Gynllun cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

Er nad yw'r Cynllun yn cynnwys esboniad manwl ynglŷn â pham y dewiswyd y blaenoriaethau a'r canlyniadau gwella pum mlynedd trosfwaol neu'r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13, fel sy'n ofynnol gan ganllawiau'r mesur, mae wedi'i gysylltu'n glir â maniffesto'r Weinyddiaeth newydd. Mae'r Cynllun hefyd yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol 2012-2017 y Cyngor, *Standing Up For Newport*, a Strategaeth Gymunedol Casnewydd ar gyfer 2010-2020, *Feeling good about Newport*.

Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro o amgylch y chwe blaenoriaeth a chanlyniad gwella pum mlynedd trosfwaol, ac mae'n cynnwys nifer o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13, mesurau perfformiad a disgrifiad o gamau gweithredu i'w cymryd.

Mae llawer o'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun yn cyfrannu at y blaenoriaethau a'r canlyniadau gwella pum mlynedd trosfwaol. Mae'r cysylltiadau rhwng rhai o'r camau gweithredu, y blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 a mesurau i ddangos cyflawniad yn gliriach mewn rhai camau gweithredu nag mewn eraill. Er enghraifft: caiff effaith Strategaeth Cynhesrwydd Cynaliadwy'r Cyngor ei mesur yn ôl nifer y cartrefi â gwell effeithlonrwydd thermol; a chaiff effaith datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff Integredig ei mesur yn ôl canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio.

Fodd bynnag, mae yna nifer o gamau gweithredu nad oes ganddynt fesurau cyfatebol i werthuso effaith. Er enghraifft, gallai'r cam gweithredu 'hyrwyddwr pobl ifanc anabl ac agored i niwed' gyfrannu at y flaenoriaeth wella 'Mae Casnewydd yn Ddinas Ofalgar', ond nid oes yna flaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 sy'n ymwneud â'r cam gweithredu hwn yn uniongyrchol ac nid oes yna fesurau i asesu ei effaith. Nid oes gan nifer o'r camau gweithredu yn yr adran 'Mae Casnewydd yn Ddinas Decach' fesurau cyfatebol a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith y camau gweithredu hynny. Gallai'r pedwar cam gweithredu yn 'Mae Casnewydd yn Ddinas Ddiogelach' gyfrannu at ddinas ddiogelach ond nid yw'r mesurau a ddefnyddir yn mesur gwelliannau neu effaith o ganlyniad i'r camau gweithredu hyn i raddau digonol. Nid oes unrhyw fesurau'n ymwneud â darparu cynllun rheoli canol y ddinas neu'r cynllun cydlyniant rhanbarthol.

Er bod y Cyngor yn nodi ei fod yn defnyddio dull o reoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau neu RBA), nid yw hyn yn amlwg yn Cynllun. Er enghraifft, yn 'Mae Casnewydd yn Ddinas Ddiogelach', mae'r flaenoriaeth wella ar gyfer 2012-13, 'sicrhau bod seilwaith y ddinas yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda', yn cynnwys mesur yn ymwneud â chyflwr ffyrdd. Gallai dull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau ddefnyddio mesurau sy'n dangos effaith ffyrdd a gynhelir yn dda, megis gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cryfhau ei ddull i ganolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau, ac mae'n bwriadu gwneud hyn trwy ei drefniadau rheoli perfformiad diwygiedig.

Mae gan bob blaenoriaeth wella ar gyfer 2012-13 nifer cyfyngedig o fesurau nad ydynt bob amser yn helpu'r Cyngor i ddangos a yw wedi cyflawni'r flaenoriaeth neu a yw dinasyddion ar eu hennill o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, mae gan yr amcan 'sicrhau bod teuluoedd a phobl agored i niwed yn gwneud y gorau o'u hincwm trwy dderbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael' ddau fesur, ond nid yw'r naill na'r llall yn mesur faint o bobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datblygu dulliau mesur canlyniadau fel y gall werthuso'n llawn sut y cyflawnir y flaenoriaeth wella hon.

Mae'r Cyngor yn nodi mai ei nod cyffredinol yw 'sicrhau gwelliant parhaus ym mhopeth y mae'n ei wneud a gwneud newidiadau cynyddol a chall i'r ffordd y mae'n cynllunio a darparu gwasanaethau a chyflawni ei fusnes'. Fodd bynnag, mae nifer o'r targedau a bennwyd ar gyfer 2012-13 ar yr un lefel neu'n is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd mai dim ond 53 y cant o'i dargedau y llwyddodd i'w cyflawni yn 2011-12, sy'n is na'r canrannau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol (60 y cant yn 2010-11 a 65 y cant yn 2009-10).

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn amlinellu gofynion penodol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012. Mae yna aliniad rhwng y gofyniad i gynhyrchu amcanion cydraddoldeb a'r elfen o 'degwch' y mae'n rhaid i awdurdodau roi sylw iddi wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Nid yw'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'i amcanion gwella, ond mae wedi gwneud hynny mewn perthynas â'i Gynllun Gwella. Er gwaethaf hyn, mae yna dystiolaeth bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd tegwch, ac mae ganddo amcan gwella trosfwaol – 'Mae Casnewydd yn Ddinas Decach' – sy'n cynnwys cam gweithredu i sefydlu Comisiwn Tegwch â chadeirydd annibynnol.
Mae yna gysylltiadau clir rhwng amcanion cydraddoldeb y Cyngor a rhai themâu yn y Cynllun, er enghraifft: cam-drin domestig; cydlyniant cymunedol; a bod heb waith.

## Yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i hwnnw, nid yw hi'n glir hyd yma a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan fod cyflymder y gwelliannau wedi bod yn araf mewn rhai meysydd allweddol a'i fod wrthi'n gwneud nifer o newidiadau arwyddocaol

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau atebolrwydd i wella perfformiad ac effeithlonrwydd

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu strwythur uwch reoli dros dro ers mis Chwefror, tra'n disgwyl canlyniad etholiadau mis Mai 2012. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr presennol wedi cyhoeddi ei hymddiswyddiad a bydd yn gadael y sefydliad ddiwedd mis Hydref 2012 er mwyn dechrau mewn swydd newydd gyda chyngor yn Lloegr. Mae'r Cyngor wrthi'n recriwtio i benodi ei holynydd.

Arweiniodd etholiadau mis Mai 2012 at newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor. Erbyn hyn, mae 37 o'r 50 o seddi sydd ar gael ar y Cyngor yn eiddo i'r Blaid Lafur. Comisiynodd y Cyngor newydd ymgynghorwyr allanol i adolygu ei strwythur uwch reoli. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w strwythur rheoli newydd fynd i'r afael â materion allweddol megis: twf economaidd; gallu strategol; aliniad ac atebolrwydd; cyfrifoldeb ac arloesedd yn ogystal â gwerth am arian. Mae'n cydnabod y bydd perfformiad a thrawsnewid wrth wraidd yr hyn y bydd yn ei wneud ac mae'n bwriadu canolbwyntio mwy ar drawsnewid i helpu gwasanaethau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a symud i fodelau darparu amgen. Er mwyn dwyn penaethiaid gwasanaethau i gyfrif, byddwn yn cynnal adolygiad sylfaenol o gynlluniau gwasanaeth a phrosesau cynllunio busnes (gan gynnwys dangosyddion perfformiad) er mwyn pennu beth yn union sydd angen i ni ei wneud.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cryfhau'r rôl graffu hefyd a mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â'r anghydbwysedd gwaith rhwng y fforymau craffu a'r diffyg ffocws a chanlyniadau ystyrlon. O dan y trefniadau newydd, mae tri phwyllgor craffu wedi disodli'r chwe fforwm trosolwg a chraffu blaenorol. Yn ei Gynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi amlinellu ei fwriadau mewn perthynas â'i gyfeiriad strategol ac uchelgeisiau ar gyfer gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gryfhau ei waith rheoli perfformiad trwy ei Fwrdd Perfformiad trwy sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer darparu gwelliant, trawsnewid ac effeithlonrwydd yn glir ledled y sefydliad.

Byddwn yn monitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â rhoi'r cynlluniau a'r trefniadau hyn ar waith fel rhan o'n gwaith parhaus.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â llawer o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella, ond mae'n cydnabod bod cynnydd yn araf mewn rhai meysydd a bod yna anghysondebau yn y ffordd y mae'n rheoli a thrafod ein canfyddiadau

Yn y gorffennol, rwyf wedi amlinellu nifer o gynigion ar gyfer gwella ac wedi nodi rhai meysydd lle byddem yn cyflawni gwaith pellach. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod, a cheir disgrifiad manylach yn Atodiad 1.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn cydnabod bod cynnydd yn erbyn llawer o'n cynigion ar gyfer gwella wedi bod yn anghyson. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Strategaeth Gwybodaeth a Thechnoleg 2011-2014 sy'n mynd i'r afael â llawer o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn ein hadroddiad Adolygu Technoleg ym mis Mawrth 2011 ar y gwasanaeth Technoleg wybodaeth (TG). Mae cynnydd ar rai cynigion eraill wedi bod yn araf ac, yn aml, mae'n anodd asesu cynnydd. Mae rhywfaint o waith wedi ei drefnu ar gyfer 2012-13, er enghraifft: gwella'r gwaith o reoli asedau'r Cyngor a datblygu strategaeth rheoli asedau; a datblygu strategaeth rheoli gwastraff integredig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach yn y meysydd canlynol: cynlluniau ariannol tymor canolig; rheoli perfformiad; llywodraethu gwybodaeth; a rhoi systemau ar waith i gydgysylltu a rheoli adroddiadau rheoleiddwyr allanol.

Mewn rhai meysydd, nid yw'r Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd os o gwbl hyd yma. Er bod y Cyngor wedi cynnal rhai gweithgareddau mewn perthynas â mynd i'r afael â chynigion a wnaed yn ein Hadolygiad o Lywodraethu Gwybodaeth, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2011, cyfyngedig yw'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Er bod y Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu penodol mewn ymateb i'n cynigion, nid yw'n adlewyrchu ein cynigion gwreiddiol ar gyfer gwella, a allai arwain at y Cyngor yn camddehongli ystyr a ffocws y cynigion unigol. Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn erbyn ein cynnig y dylai'r Cyngor brofi cynlluniau ar gyfer adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes.

Nid oes gan y Cyngor drefniadau systematig ar gyfer rheoli'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella gan arolygwyr a rheoleiddwyr allanol. Yn gyffredinol, gwelwyd bod rhai o'n hadroddiadau ar wasanaethau penodol wedi'u cyflwyno i Aelodau'r Cabinet i gychwyn, er enghraifft, ein hadroddiadau ar wastraff a TG. Cafodd rhai cynigion, megis y rhai sy'n ymwneud â TG, eu hadrodd i'r Aelod o'r Cabinet a chafodd y cynllun gweithredu ei adrodd i'r Fforwm Trosolwg a Chraffu ar Adnoddau ac Archwilio. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson mewn perthynas â phob un o'n hadroddiadau. Ers ein gwaith maes, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu proses newydd ar gyfer rheoli a monitro holl adroddiadau ac argymhellion rheoleiddwyr.

Cafodd ein Hadroddiadau Asesu Corfforaethol a'n Hadroddiadau Gwella Blynyddol eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae hyn yn helpu Aelodau i asesu sut mae'r Cyngor yn perfformio ac ystyried barn annibynnol am ddull y Cyngor o sicrhau gwelliannau i ddinasyddion.

Lle mae camau gweithredu'n barhaus, byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y Cyngor o ran eu rhoi ar waith.

### Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi a monitro dangosyddion perfformiad

Er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well fyth, mae pob cyngor angen gwybodaeth dda a'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth honno'n briodol. Mae gan y Cyngor systemau da ar gyfer casglu dangosyddion perfformiad ac, yn ddiweddar, rydym wedi archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn gymysgedd o ddangosyddion strategol cenedlaethol, mesurau atebolrwydd cyhoeddus, setiau data gwella gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r holl fesurau hyn i farnu pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

Ar y cyfan, gwelwyd bod gan y Cyngor systemau effeithiol ar waith i reoli dangosyddion perfformiad. Archwiliwyd 42 o fesurau i gyd; roedd un yn amodol ac roedd angen cywiro pump oherwydd gwallau. Byddwn yn adrodd ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

### Mae gan y Cyngor hanes da o reoli ei gyllidebau ac mae'n cydnabod bod angen gwella ei ddulliau cynllunio ariannol tymor canolig. Mae yna wendidau yn y ffordd mae 'arbedion' yn cael eu hadrodd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar wella ei brosesau rheoli a chynllunio ariannol. Mae gan y Cyngor hanes o reoli o fewn ei gyllideb. Yn 2011-12, roedd yna £3.4 miliwn o danwariant. Roedd y rhan fwyaf o'r tanwariant hwn o ganlyniad i gyllideb wrth gefn heb ei defnyddio (£2.9 miliwn) a gwarged ar gronfa casglu'r dreth gyngor (£232,000). Mae balans Cronfa'r Cyngor, ac eithrio balansau ysgolion, wedi aros ar y lefel y cytunwyd arni, sef £5 miliwn, ac mae lefel y cronfeydd refeniw wrth gefn sydd wedi'u clustnodi wedi'u cynnal fwy neu lai yr un fath, sef £64 miliwn ar ddiwedd 2011-12.

Cafodd perfformiad ariannol y Cyngor yn 2011-12 ei gefnogi gan y canlynol: rhaglen o arbedion ariannol; gwariant mewn rhai meysydd yn is na'r hyn a ragwelwyd; incwm yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd; a phwysau chwyddiannol wedi'i oramcangyfrif. Aethom ati i adolygu nifer o adroddiadau ariannol a monitro cyllideb diweddar, ac mae'n ymddangos bod arbedion yn cwmpasu ystod o ostyngiadau mewn gwariant. Mae angen i'r Cyngor gytuno ar ddiffiniad ymarferol o 'arbedion' sy'n ddealledig ledled y sefydliad i sicrhau adroddiadau cyson a chlir.

Gan fod arbedion yn cael eu hadrodd mewn nifer o adroddiadau ar wahân yn hytrach nag mewn ffordd gydgysylltiedig trwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), nid oedd i bob amser yn bosibl olrhain a chysoni ffigurau a nodwyd fel arbedion ac arbedion effeithlonrwydd. Rhaid i'r Cyngor wneud llawer o waith i wella eglurder a thryloywder gwybodaeth, yn enwedig y ffordd mae arbedion yn cael eu cyfrifo, eu disgrifio a'u hadrodd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gydgysylltu a chydgrynhoi ei gynlluniau ariannol yn well trwy gryfhau ei MTFP fel ei fod yn datblygu'n sbardun allweddol i helpu'r Cyngor i reoli ei bwysau ariannol a chyflawni ei flaenoriaethau gwella dros dymor hirach.

Mae MTFP presennol y Cyngor yn nodi heriau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd gostyngiadau a ragwelir mewn lefelau cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae eisoes wedi nodi y bydd angen iddo sicrhau gostyngiadau gwariant o ryw £12.3 miliwn yn 2012-13. Nid yw'r sefyllfa mewn perthynas â blynyddoedd dilynol mor glir gan fod yr MTFP yn tueddu i ganolbwyntio ar arbedion a phwysau gwasanaeth sy'n ofynnol yn y flwyddyn ariannol nesaf, er gwaethaf y ffaith ei fod yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir cyllidebau blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn ffordd nad yw'n rhoi ystyriaeth lawn i asesiad o ofynion gwasanaethau yn y dyfodol. Nid oes unrhyw ddadansoddiad o sensitifrwydd na model 'beth os' wedi'u cynnwys yn y broses i hysbysu'r Cyngor yn well am y posibiliadau ac, yn bwysicach fyth, goblygiadau digwyddiadau allanol a sbardunau pwysau costau.

Er bod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyffredinol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn, mae'n cydnabod bod angen gwneud llawer mwy o waith i symud i sefyllfa gynaliadwy os yw'n mynd i gyflawni ei flaenoriaethau'n llwyddiannus o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymestyn ei orwel cynllunio i 2017-18 ac mae'n datblygu rhaglen drawsnewid tymor hirach i fynd i'r afael â heriau ariannol yn y dyfodol.

**Mae partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent ac wedi creu fframwaith cryf i reoli'r rhaglen fel sail iddi. Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yn ei dyddiau cynnar ac mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, ac i newid ymddygiad pobl a dangos ei heffaith.**

Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd a Thorfaen ddefnyddio model integredig uchelgeisiol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, sef Rhaglen Eiddilwch Gwent (GFP). Mae gan GFP statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[1] rhwng y bwrdd iechyd a'r pum awdurdod lleol ac mae'n cael ei chefnogi gan £6.9 miliwn o gyllid Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru. Mae amcanion GFP yn hynod berthnasol i'r ffordd mae'r cyrff sector cyhoeddus perthnasol yn defnyddio eu hadnoddau, ac maent yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu blaenoriaethau ar gyfer gwella ym mhob asiantaeth berthnasol.

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau i roi GFP ar waith, gan ganolbwyntio ar ddarparu sicrwydd cynnar mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a chyfeiriad tuag at gyflawni amcanion a chanlyniadau arfaethedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad bod partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth GFP ac wedi creu fframwaith cryf i reoli'r rhaglen fel sail iddi. Mae GFP yn ei dyddiau cynnar ac mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, ac i newid ymddygiad pobl a dangos ei heffaith.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran sefydlu'r swyddogaeth Gwasanaethau Eiddo newydd, ond mae gwendidau mewn perthynas â rheoli strategol, gwybodaeth am asedau a chynllunio buddsoddi'n parhau i rwystro gwelliannau hirdymor**

Yn 2011, aethom ati i adolygu gwaith y Cyngor ar reoli asedau a'i gynigion ar gyfer ad-drefnu'r gwaith o ddarparu ei swyddogaeth Gwasanaethau Eiddo. Roedd ad-drefnu'n golygu creu Is-adran Eiddo newydd o fewn y Gwasanaeth Adfywio a Rheoleiddio, a oedd yn cynnwys rheoli asedau. Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar asesu a oedd y Cyngor yn sefydlu tîm Gwasanaethau Eiddo effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau rheoli asedau corfforaethol i'r dyfodol, a daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran sefydlu'r swyddogaeth Gwasanaethau Eiddo newydd, ond mae gwendidau mewn perthynas â rheoli strategol, gwybodaeth am asedau a chynllunio buddsoddi'n parhau i

[1] Mae cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi'i sefydlu fel y gellir integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau i ddarparu Rhaglen Eiddilwch Gwent.

rwystro gwelliannau hirdymor. Daethom i'r casgliad hwn ar ôl gweld bod diffyg Strategaeth Rheoli Asedau fabwysiedig yn rhwystro cynlluniau hirdymor, er bod y Cyngor wedi amlinellu amserlen ar gyfer mynd i'r afael â hyn yn y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor wedi nodi cyfres o ganlyniadau eiddo strategol, ond mae'r rhain yn fyrdymor ar y cyfan ac mae gan y Cynllun Busnes Gwasanaethau Eiddo drafft wendidau ac nid yw'n effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ond nid ydynt yn ddigon cadarn i gefnogi a herio penderfyniadau. Nid yw gwaith rheoli asedau corfforaethol wedi datblygu digon ac nid yw'n effeithiol, ac ychydig iawn o ffocws sydd ar werth am arian wrth ddarparu gwasanaethau eiddo.

Mae Atodiad 1 yn amlinellu gweithgareddau a chynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â chynigion rheoli asedau blaenorol ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad manwl a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2012 yn cynnwys nifer o gynigion ychwanegol ar gyfer gwella i helpu'r Cyngor i wella (gweler Atodiad 2).

### Mae'r canlyniadau i bobl agored i niwed yng Nghasnewydd yn gwella ac mae systemau mwy cyson ar waith, ond mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae angen datblygu'r Gwasanaeth Amddiffyn Oedolion o hyd

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adolygiad cenedlaethol o wasanaethau amddiffyn oedolion yn gynnar yn 2010 ac adroddwyd ar y canfyddiadau ym mis Mawrth 2010. Yn ôl arolwg 2010, mae gan Gasnewydd agwedd anghyson at amddiffyn oedolion ac mae angen gweledigaeth gliriach a chytûn ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau amddiffyn oedolion ddatblygu. Ailarchwiliodd AGGCC effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer amddiffyn oedolion ym mis Mai a mis Mehefin 2011; cyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mai 2012.

Yn ôl yr arolygiad, mae'r weledigaeth strategol yn gliriach erbyn hyn ac mae'r canlyniadau i bobl agored i niwed yn gwella ac mae systemau mwy cyson ar waith, ond mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r hyn a ragwelwyd gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn ei chynllun gweithredu cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010. Mae angen datblygu'r Gwasanaeth Amddiffyn Oedolion o hyd, a dylai'r Cyngor werthuso effeithiolrwydd ei ymdrechion yn y dyfodol yn ofalus i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

## Er bod gan y Cyngor gynlluniau a strwythurau ar waith i gefnogi adfywio yng Nghasnewydd, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i alluogi'r Cyngor i gynnal gwerthusiad cynhwysfawr o effaith ei fentrau adfywio

Yn ystod mis Ebrill 2012, aethom ati i adolygu trefniadau'r Cyngor i gynllunio, darparu a gwerthuso ei fentrau adfywio. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar asesu a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer: cynllunio ei ddull o ymdrin â gweithgareddau adfywio; sicrhau bod gweithgareddau a chyfrifoldebau'n cael eu trefnu mewn ffordd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion; a sicrhau bod y Cyngor yn ystyried gwybodaeth berthnasol wrth werthuso'r gwaith o ddarparu ei strategaeth.

Er bod gan y Cyngor gynlluniau a strwythurau ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni adfywio yng Nghasnewydd, daethom i'r casgliad nad yw trefniadau presennol y Cyngor yn ddigon cadarn fel y gall gynnal gwerthusiad cynhwysfawr o effaith ei fentrau adfywio. Gwelsom bod y Cyngor yn deall bod angen adfywio Casnewydd ac mae wedi ymrwymo i gyflawni hyn, ond nid yw'r amcanion adfywio yn strategaethau'r Cyngor yn gwbl gydgysylltiedig, sy'n ei gwneud hi''n anodd gwerthuso llwyddiant. Mae'r Cyngor yn dod yn fwy ymatebol ac effeithiol wrth gyflawni gweithgareddau adfywio, ond mae'r ffynonellau cyllid yn gyfyngedig ac nid yw effeithiau newidiadau allweddol wedi'u gwerthuso hyd yma. Er bod gan y Cyngor drefniadau monitro a chraffu ar waith, mae yna wendidau yn ei allu i gael gafael ar wybodaeth am ganlyniadau a'i phrosesu, ac asesu a yw gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

Mae'r adroddiad manwl a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2012 yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer gwella i helpu'r Cyngor i wella yn y meysydd canlynol: cysylltiadau strategol rhwng y Strategaeth Datblygu Economaidd a chynlluniau corfforaethol allweddol eraill; gwybodaeth am berfformiad a threfniadau monitro ac asesu (gweler Atodiad 2).

Ers i ni gynnal ein hadolygiad ym mis Ebrill, mae'r Cyngor wedi ein hysbysu ei fod wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella trwy: ddechrau ar broses i nodi ei flaenoriaethau adfywio; sefydlu cysylltiadau rhwng ei amcanion strategol a chynigion a chamau gweithredu mewn perthynas â darparu gwasanaethau; gwneud cynnydd o ran integreiddio strwythurau staff i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng adrannau sy'n rhan o'r gwaith adfywio; a sefydlu prosesau rheoli prosiectau a data llinell sylfaen mwy cadarn fel y gall fonitro a gwerthuso perfformiad, cynnydd a chanlyniadau'n fwy effeithiol.

Mae adfywio ac adferiad economaidd yn sbardunau allweddol ar gyfer sicrhau dinas lwyddiannus a chynaliadwy a byddant yn parhau i gael sylw yng Nghynllun Corfforaethol newydd ac amcanion gwella hirdymor y Cyngor. Byddwn yn olrhain cynnydd y Cyngor fel rhan o'n gwaith Asesu Gwelliant.

# Cynigion pellach ar gyfer gwella

Awgrymir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **Cynllun Gwella** | |
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau pob blwyddyn ariannol, ac i weithredu'n fwy unol â chanllawiau'r Mesur. |
| **Gweithredu cynigion ar gyfer gwella** | |
| C2 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith sy'n sicrhau bod atebolrwydd am fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella'n glir, a bod prosesau monitro ac adrodd cadarn ar waith sy'n olrhain a nodi'n glir a yw cynnydd yn cael ei wneud. |
| **Cynllunio ariannol** | |
| C3 | Mae angen i'r Cyngor gytuno ar ddiffiniad ymarferol o 'arbedion' sy'n ddealledig ledled y sefydliad. |
| C4 | Dylai'r Cyngor gyflwyno adroddiad ar wybodaeth am 'arbedion' ariannol mewn ffordd sy'n dangos yn glir beth yw math a natur yr arbediad. |
| C5 | Er mwyn gwella ei ddulliau cynllunio ariannol tymor canolig, dylai'r Cyngor ymgorffori data priodol er mwyn helpu i nodi effeithiau ariannol newidiadau yn y galw am wasanaethau, ynghyd â newidiadau demograffig. |
| C6 | Er mwyn gwella ei ddulliau cynllunio ariannol tymor canolig, dylai'r Cyngor ddefnyddio dulliau modelu ariannol i ragweld effeithiau tebygol ar gyllid a gwasanaethau, o ystyried ystod o ragdybiaethau a senarios. |
| **Rheoli asedau** | |
| C7 | Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad adborth ar Reoli Asedau (Awst 2012) (gweler Atodiad 2). |
| **Adfywio** | |
| C8 | Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad adborth ar Adfywio (Medi 2012) (gweler Atodiad 2). |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwelliant yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn darparu mwy o fanylion am y gwaith a gyflawnir yn ystod asesiad eleni, ac yn enwedig sut y byddwn yn ychwanegu gwerth trwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodir ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn arbennig, byddaf yn gofyn i'm Tîm Asesu Gwelliant ystyried pa mor ddibynadwy yw'r prosesau hunanasesu yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y dull hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith ac rwy'n gobeithio gweld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser.
Rwyf wedi ymrwymo o hyd i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus a'ch cefnogi i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a'r newidiadau yn sgil hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Non Jenkins, Rheolwr Rhanbarthol Llywodraeth Leol
Jackie Joyce, Arweinydd Archwilio Perfformiad Llywodraeth Leol

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| 1. Gwella a datblygu trefniadau o ran cael gwybodaeth am berfformiad er mwyn nodi manteision gweithgareddau'r Cyngor a'i bartneriaid o safbwynt canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau. | Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau o ran cael gwybodaeth am berfformiad er mwyn nodi manteision a chanlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.<br>Yn 2011, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Rheoli Perfformiad sy'n amlinellu ei weledigaeth ar gyfer rheoli perfformiad ledled y Cyngor. Mae gan y strategaeth Gynllun Cyflawni cysylltiedig ar gyfer 2011-12 sy'n nodi nifer o gamau gweithredu allweddol i'w cwblhau yn ystod 2012, er enghraifft: datblygu pecyn cymorth RBA; casglu data ar farn cwsmeriaid er mwyn llywio ac fel tystiolaeth o amcanion gwella; a chynnwys data partneriaeth yn y system Views.<br>Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Gwasanaethau i Reolwyr bob blwyddyn, ac mae'n pwysleisio'r angen i nodi canlyniadau a sut mae gwasanaethau'n cysylltu â dogfennau strategol allweddol, gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Corfforaethol. Er bod y Cyngor wedi mabwysiadu dull cynllunio seiliedig ar ganlyniadau, nid yw hyn bob amser yn glir yn y canllawiau. Er enghraifft, yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaethau ar gyfer 2011-12, roedd yna ofyniad i restru dulliau mesur perfformiad yn erbyn y penawdau canlynol: Faint rydym wedi'i wneud? Pa mor dda y gwnaethom ni? Oes unrhyw un wedi elwa? Yng nghanllawiau 2012-13, nid yw'r dull hwn yn orfodol.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad ac yn datblygu dulliau mesur perfformiad ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â'i Gynllun Corfforaethol 2012-2017, ei Gynllun Gwella a'i Amcanion Gwella, a chynnydd ar ei Gynllun Cyflawni Strategaeth Rheoli Perfformiad.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 2. Gweithredu MTFP sydd wedi'i alinio i'r gwaith o ddarparu'r rhaglen drawsnewid. | Mae gan y Cyngor MTFP ond mae'n tueddu i ganolbwyntio ar arbedion a'r pwysau ar wasanaethau sy'n ofynnol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwendidau hyn ac mae wedi penderfynu ymestyn ei orwel cynllunio i 2017-18, ac mae hefyd yn datblygu rhaglen drawsnewid tymor hirach i fynd i'r afael â heriau ariannol i'r dyfodol.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 3. Rhoi trefniadau llywodraeth TGCh ar waith i gefnogi datblygiad strategol technoleg wedi'i alinio i angehnion busnes gwasanaethau a safonau corfforaethol.<br>Ymgorffori buddsoddiad mewn TGCh yn y cynlluniau ariannol tymor canolig a sicrhau bod technoleg yn cael ei darparu yn y ffordd fwyaf costeffeithiol, ei bod yn gynaliadwy ac nad yw'n arwain at risgiau diangen a gorbenion ategol. | Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor ym mis Ebrill 2011 fel rhan o'n rhaglen astudiaethau thematig genedlaethol yn 2011, a chyflwynwyd y cynigion canlynol ar gyfer gwella:<br>• asesu'r anghydbwysedd tybiedig rhwng gwybodaeth ar bapur a gwybodaeth electronig yn nogfennau canllawiau, polisi a strategaeth y Cyngor i sicrhau bod pawb yn deall bod gwybodaeth ar bapur a gwybodaeth electronig cyn bwysiced â'i gilydd i'r sefydliad;<br>• parhau i gynyddu effaith yr Uned Wybodaeth fel ei bod yn rhoi sylw i bob rhan o'r cylch bywyd gwybodaeth (casglu, storio, defnyddio, rhannu, gwaredu);<br>• dylai'r Cyngor ymgysylltu mwy â dulliau'r gyfres ISO27001, megis y datganiad o gymhwysedd a'r canllawiau archwilio, i'w helpu i roi ffocws i gyfeiriad a chryfhau arferion;<br>• dylai'r Cyngor wneud penderfyniad cynnar ynglŷn â'r cyfleusterau gweinydd oddi ar y safle;<br>• dylai'r Cyngor brofi'r cynlluniau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes ac, os bydd angen, gwella'r cynlluniau fel rhan o ddysgu a datblygu parhaus;<br>• parhau i ddatblygu prosesau archifo a gwaredu, gan sefydlu polisïau a rheolaeth gorfforaethol; a<br>• sicrhau bod cynnydd mewn perthynas ag archifo negeseuon e-bost yn cael ei gynnal.<br>Mae'r Cyngor wedi cynnal rhai gweithgareddau mewn perthynas â'r cynigion hyn ar gyfer gwella ond, ar y cyfan, prin yw'r cynnydd sydd wedi'i wneud.<br>Er bod y Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu penodol mewn ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella, nid yw'r cynllun yn cynnwys geiriad gwreiddiol cynigion |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| | Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella. Mae hyn yn wendid gan y gall arwain at golli ffocws y cynigion unigol.<br>Mae rhai camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor yn cynnwys:<br>• gweithredu'r System Rheoli Cronfeydd data Ewropeaidd (EDMS), sydd wedi'i ailenwi 'Fy Ngwybodaeth' fel rhan o gasgliad o brosiectau i wella effeithiolrwydd systemau a gwybodaeth cefn swyddfa;<br>• erbyn hyn, mae'r uned data gofodol yn atebol yn uniongyrchol i'r Rheolwr Risg a Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n sicrhau bod data gofodol ar gael yn fwy eang ar draws gwasanaethau;<br>• gweithredu'r prosiect Tell us Once a sicrhau bod hwyluswyr Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a'r Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) yn cael eu datblygu ar draws gwasanaethau a chyda sefydliadau partner; ac<br>• mae'r Cyngor hefyd yn rhan o gynllun peilot y DU ar gyfer y prosiect Direct Electronic Incident Transfer (DEIT), ac mae wrthi'n datblygu ei brosiect Cipolwg Cwsmeriaid ei hun.<br>Er bod y Cyngor wedi gosod generadur ysbeidiol i gefnogi'r systemau TG os bydd y pŵer yn methu, nid yw wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â chyfleusterau'r gweinyddwr oddi ar y safle na phrofi ei gynlluniau adfer ar ôl trychineb.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn gweithredu'r cynigion hyn ar gyfer gwella.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 4. Datblygu trefniadau datblygu sefydliadol ac Adnoddau Dynol (AD) sydd wedi'u halinio gyda'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Parod at y Dyfodol. | Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd ar y mater hwn. Mae'r rhaglen Parod ar gyfer y Dyfodol yn rhan o raglen drawsnewid gyffredinol y Cyngor bellach. Mae ganddo weledigaeth strategol glir ar gyfer rheoli ei bobl yn effeithiol, a mabwysiadodd ei Gynllun ar gyfer Pobl 2010-2013 ym mis Hydref 2010.<br>Ym mis Mawrth 2012, cafodd y Bwrdd Perfformiad ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â mentrau'r Cynllun ar gyfer Pobl.<br>Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau'n cynnwys: y broses 'Eich Adolygiad'; cyfnewidfeydd dysgu a chymorthfeydd AD i reolwyr; sesiynau cymhwysedd; gwaith cydweithredol; gostyngiadau a |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| | dargedir mewn costau goramser a lefelau staff asiantaeth; gwell polisïau a hyfforddiant rheoli straen; rheoli presenoldeb; monitro absenoldeb salwch; a chwblhau arolwg o weithwyr cyflogedig. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o absenoldeb salwch ac mae wedi nodi adnodd penodedig i fynd i'r afael â'r mater. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mabwysiadu'r safon 'Buddsoddwyr mewn Pobl'.<br>Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno'r fforwm uwch reolwyr. Rhaid i reolwyr haen uchaf gwblhau cyfres o sesiynau datblygu rheolwyr, gan gynnwys gwaith tîm, perfformiad, cyfathrebu, arweinyddiaeth, effeithiolrwydd personol a hyfforddiant. Mae'r Cyngor wedi recriwtio cwnselydd straen a hyfforddwr datblygu hefyd.<br>Yn gynnar yn 2012, cymeradwyodd y Pennaeth AD, Polisi a Pherfformiad Strategaeth Datblygu Sefydliadol. Mae'r strategaeth yn atgyfnerthu'r egwyddorion yng Nghynllun ar gyfer Pobl 2010 ac yn canolbwyntio ar wella gallu'r sefydliad i sicrhau newid diwylliannol. Mae cynllun gweithredu Datblygu Sefydliadol wedi'i ddatblygu ar gyfer 2012-13.<br>Yn ystod 2012-13, bydd y Cyngor yn adnewyddu ac ailgyhoeddi ei broses adolygu perfformiad ('Eich Adolygiad' ar hyn o bryd ond, yn ystod yr hydref 2012, bydd yn newid ei enw i 'Fy Adolygiad'). Yn 2011-12, adolygwyd perfformiad 85 y cant o'r gweithwyr cyflogedig a rhoddwyd sicrwydd iddynt y caent drafod eu perfformiad yn eu rôl, eu cyfraniad at y sefydliad, eu cryfderau a'u hanghenion datblygu gyda'u rheolwr.<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn yng ngoleuni'r gwaith arfaethedig o ad-drefnu'r tîm uwch reoli.<br>Aethom ati hefyd i gynnal adolygiad o drefniadau AD y Cyngor ym mis Medi 2011 fel rhan o'n hastudiaethau thematig cenedlaethol yn 2011. Gwnaethom y cynigion canlynol ar gyfer gwella:<br>• mae angen i'r Cyngor weithio trwy ei brosiect Total Reward a gweithredir canlyniadau i leihau'r tebygolrwydd y bydd undebau llafur a staff yn ei herio; a<br>• dylai'r Cyngor asesu effaith gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner ar faterion a gwobrwyon ei broses gwerthuso swyddi ei hun, gan gynnwys cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| | Sefydlodd y Cyngor ei Grŵp Prosiect Total Reward ym mis Hydref 2010 ac mae wedi bod yn adolygu ei gyflogau, ei raddfeydd cyflog a'i daliadau cydnabyddiaeth ers sawl blwyddyn bellach. Ers mis Mehefin 2011, mae cytundeb cydweithio lleol gydag undebau llafur wedi bod ar waith a fabwysiadodd Gynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Dinas Casnewydd (NCC JES) yn hytrach na Chynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol. Er bod y Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Prosiect ac Is-bwyllgor Cabinet, mae cynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella wedi bod yn araf ac yn gyfyngedig. Mae'r Bwrdd Rheoli Prosiect wrthi'n adolygu cynllun, cynhyrchion a chyflawniadau'r prosiect, a chyflwynir adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref 2012.<br>Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor ar y cynnig ar gyfer gwella sy'n ymwneud â'r cydweithredu uchod yn canolbwyntio ar drefniadau cydweithredol cyffredinol, er enghraifft: gweithio gydag awdurdodau cyfagos; meithrin cydberthynas waith gydag undebau llafur cydnabyddedig perthnasol; a chefnogi cydweithredu parhaus trwy gytundeb cyfleusterau undeb llafur. Ond mae ein cynnig ar gyfer gwella'n ymwneud â'r Cyngor yn cydnabod y materion ac asesu effaith gwaith cydweithredol mewn perthynas â materion cyflog cyfartal posibl a'i gynlluniau gwerthuso swyddi a gwobrwyo ei hun.<br>Mae unrhyw gyngor yn agored i niwed os gall ei weithlu mewn proffesiwn lle mae prinder ddewis gweithio i gyngor gwahanol heb fod yn bell i ffwrdd am ragor o arian.<br>Mae adroddiad diweddar yn dangos bod y Cyngor yn cael ei effeithio gan awdurdodau cyfagos sydd wedi bod drwy'r broses statws sengl ac sy'n cynnig cyflogau tipyn uwch i ymarferwyr gwaith cymdeithasol a staff rheoli. Y sefyllfa bresennol yw na fydd cynllun Total Reward Casnewydd yn weithredol hyd nes mis Ebrill 2013 a dywed ei fod yn talu rhwng £3 a £5,000 yn llai nag awdurdodau cyfagos.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 5. Mynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli asedau trwy ymgorffori argymhellion yn Adroddiad Rheoli Adeiladau Swyddfa Archwilio Cymru ar gynlluniau i sefydlu gwasanaeth eiddo integredig. | Gweler y diweddariad yn erbyn cynnig ar gyfer gwella rhif 14 yn Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2012.<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynigion newydd ar gyfer gwella a amlinellir yn C7 ac Atodiad 2 y llythyr hwn**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella** |
| 6. Rhoi trefniadau ar waith i fonitro, olrhain ac adrodd ar adroddiadau ac argymhellion rheoleiddwyr allanol gydag aelodau etholedig a swyddogion perthnasol. | Nid oes gan y Cyngor system gadarn a systematig i fonitro a gweithredu ac adrodd ar y gwaith o ddarparu adroddiadau ac argymhellion rheoleiddwyr allanol.<br>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i adolygu cynnydd a threfniadau i weithredu a monitro ein cynigion ar gyfer gwella.<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynnig newydd ar gyfer gwella a amlinellir yn C2 yn y llythyr hwn**<br>**Cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella** |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2011** | |
| 7. Pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu o ystyried y ffaith bod llai o adnoddau ar gael. | Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau sy'n nodi ei flaenoriaethau; mae yna gysylltiadau clir rhwng Maniffesto Standing up for Newport y Weinyddiaeth newydd, Cynllun Corfforaethol 2012-2017 y Cyngor, *Standing Up For Newport* (heb ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn hyd yma) a chysylltiadau clir gyda Strategaeth Gymunedol 2010-2020, *Feeling good about Newport*.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn datblygu ei agwedd at reoli perfformiad a chynlluniau ariannol tymor canolig.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 8. Pennu dulliau mesur canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgareddau ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau. | Gweler cynnig ar gyfer gwella rhif 1 uchod hefyd. Gan nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella 2012-13 hyd yma, byddwn yn parhau i fonitro datblygiad dulliau mesur canlyniadau a fydd yn ei alluogi i ddangos effaith ei weithgareddau.<br>**Statws: Ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 9. Sefydlu trefniadau corfforaethol ar gyfer cyllido, diweddaru a datblygu pob TGCh. | Cynhaliwyd adolygiad gennym o drefniadau TG y Cyngor ym mis Mawrth 2011 fel rhan o'n hastudiaethau thema cenedlaethol yn 2011, a gwnaethom yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:<br>• mae angen i'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar safonau technolegol a'u cofnodi;<br>• mae angen i'r Cyngor gynnwys cynlluniau i ddiweddaru ac adnewyddu seilwaith TGCh o fewn ei gynlluniau ariannol tymor canolig;<br>• mae angen i'r Cyngor gasglu gwybodaeth yn ymwneud â defnydd a chostau trafodion ar draws y sianelau mynediad gwahanol i sefydlu llinell sylfaen, ac yna monitro'r defnydd a'r gost yn rheolaidd a defnyddio hyn i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu; ac<br>• mae angen i'r Cyngor farchnata'r gwahanol sianelau mynediad yn rhagweithiol bob cyfle posibl i annog defnydd o sianelau sy'n costio llai.<br>Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion hyn ar gyfer gwella a nodwyd gwaith pellach yng Nghynllun Gwasanaeth y Cyngor ar gyfer y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth.<br>Ym mis Mehefin 2011, ail-lansiwyd y gwasanaeth fel y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth gan adlewyrchu Model Gweithredu'r Cyngor a chysylltiadau rhwng gwybodaeth, technoleg a chwsmeriaid.<br>Ym mis Rhagfyr 2011, mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Gwybodaeth a Thechnoleg 2011-2014, yr ystyriwn yn enghraifft o arfer da. Hefyd, cyhoeddodd ei Strategaeth Sianelau 2011-2012 ar yr un pryd, ac ym mis Gorffennaf 2012, cymeradwyodd ei Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid.<br>Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau ailosod TG yn ei raglen gyfalaf ar gyfer 2012-13. Yn ystod 2011, canolodd ei gyllidebau bwrdd gwaith ar gyfer caledwedd a meddalwedd ac mae'r rhain bellach yn cael eu rheoli gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth. Cafodd cyllidebau eu canoli ymhellach yn 2012 ac mae cyllidebau teleffoni a rhwydwaith yn cael eu rheoli bellach gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth. Mae nifer o gynlluniau TG wedi'u cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2012-13. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| | Mae gwybodaeth yn ymwneud â defnydd a chost trafodion yn cael ei monitro ar draws pob sianel bellach, er enghraifft, nifer yr ymwelwyr wyneb yn wyneb/ystadegau trafodion sydd ar gael ers Ionawr 2012, ac mae dros 35 y cant o'r trafodion yn cael eu cwblhau drwy hunanwasanaeth. Mae'r Cyngor yn adrodd fod arbedion eisoes wedi'u cyflawni drwy gyflwyno llinell hunanwasanaeth talu'n awtomatig.<br>Mae ymgyrch farchnata wedi cychwyn gyda rhywfaint o lwyddiant cychwynnol.<br>Cynhyrchodd y Cyngor ei Strategaeth Gwybodaeth a Thechnoleg ar gyfer 2011-14 a'i chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2011; roedd datblygu'r Strategaeth yn cynnwys gweithio gyda chyfarwyddwyr ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod hyn fel arfer da. Mae'r strategaeth yn cynnwys technoleg a llywodraethu gwybodaeth ac mae Adran 6 y strategaeth yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu cyffredinol.<br>Rydym yn bwriadu cynnal Adolygiad o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth rhwng Hydref a Rhagfyr 2012. Amcanion yr adolygiad yw nodi ac asesu effaith y rhaglen trawsnewid gwasanaeth o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd, gwella perfformiad gwasanaethau yn unol â disgwyliadau cwsmeriaid a gwerthuso a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer trawsnewid yn y dyfodol yn debygol o sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau pellach ar gyfer dinasyddion.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |
| 10. Sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn ymgorffori amcangyfrifon realistig o'r adnoddau ariannol, adnoddau staff ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig. | Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i Reolwyr sy'n galw am gynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag adnoddau (staff, cyllid, incwm a buddsoddiadau), nid yw'r wybodaeth hon i'w chael yn rhai o gynlluniau 2012-13.<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o gynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 11. I fodloni gofynion y Cynulliad, dylai'r Cyngor nodi pa rai o'i welliannau arfaethedig cyfredol o adroddiadau monitro chwarterol ei gynllun gwella ddylid eu hystyried yn 'amcanion gwella' at ddibenion y Mesur. | Dywedodd y Cyngor mai'r naw blaenoriaeth yn 'Ein Cyngor Ein Dinas' oedd ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12.<br>**Statws: wedi'i gwblhau.**<br>**Cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella** |
| **Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol, Medi 2011** | |
| 12. Cryfhau dealltwriaeth rheolwyr fel bod cynlluniau gwasanaethau ar gyfer 2012-13 yn gyson yn nodi mesurau eglur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy' ymwneud â chyflawni amcanion y cynllun gwella. | Gweler y cynigion ar gyfer gwella 1 ac 8 uchod hefyd. Er bod y Cyngor yn mabwysiadu Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (RBA), mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn datblygu mesurau eglur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut y mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o reoli perfformiad.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 13. Pennu strategaeth wella eglur a dechrau gweithredu cynllun gwaith i sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli asedau corfforaethol. | Gweler y diweddariad i'r Adroddiad Gwella Blynyddol,. Ionawr 2012, cynnig gwella rhif 14.<br>**Statws: disodlwyd gan y cynigion newydd ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn C7 ac Atodiad 2 yr adroddiad hwn**<br>**Cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella** |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2012** | |
| 14. Rheoli asedau:<br>• Sefydlu rhaglen ar gyfer gwella'r gwaith o reoli asedau sy'n gwneud amcanion strategol yn fwy eglur ac yn cynnwys cynllun gweithredu gyda cherrig milltir clir i gefnogi'r gwaith o fonitro cynnydd. | Mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o weithgareddau i fynd i'r afael ag argymhellion hirsefydlog yn ymwneud â'i swyddogaeth a'i weithgaredd Rheoli Asedau. Arweiniodd adolygiad a gynhaliwyd yn ystod 2011, fel rhan o raglen gwella busnes y Cyngor, at greu gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaethau Eiddo wedi'i leoli o fewn y Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio. Mae'r strwythur newydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2012-13. Er bod gan y Cyngor Strategaeth Eiddo Corfforaethol a Chynllun Rheoli Asedau Strategol lefel uchel, mae gwaith i'w ddatblygu ymhellach yn strategaeth lawn ar y gweill yn awr a bwriedir ei orffen ym mis Hydref 2012 a'i roi ar waith ym mis Ionawr 2013. Mae gweithgareddau diweddar eraill yn cynnwys y canlynol:<br>• penodi Rheolwr Systemau Busnes;<br>• cynllun busnes Gwasanaethau Eiddo diwygiedig ar gyfer 2012-13;<br>• datblygu dangosyddion perfformiad newydd; |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| | • gweithredu system rheoli gwybodaeth eiddo (K2);<br>• penodi partner gwaredu;<br>• ailgynnull y Grŵp Rheoli Asedau Strategol;<br>• datblygu canllawiau a llawlyfrau; a<br>• mabwysiadu prosesau a mesurau rheoli diwygiedig ar gyfer cymeradwyo newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.<br>Trefnwyd llawer o gamau gweithredu a gweithgareddau ar gyfer eu cyflawni yn ystod 2012-13 ac o'r herwydd, mae'n rhy fuan i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â chynigion rheoli asedau. Cyflwynwyd adroddiad pellach gennym i'r Cyngor ym mis Awst 2012 ar reoli asedau a byddwn yn parhau i fonitro sut y bydd y Cyngor yn datblygu ei ddull o reoli asedau.<br>**Statws: disodlwyd gan y cynigion newydd ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn C7 ac Atodiad 2 yr addroddiad hwn**<br>**Cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella** |
| 15. Cyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG):<br>• sefydlu strategaeth i leihau'r llwyth achosion wrth gefn;<br>• adolygu'r gyllideb ar gyfer ceisiadau DFG;<br>• asesu'r galw posibl yn y dyfodol am wasanaeth byw'n annibynnol cynhwysfawr yng Nghasnewydd, ynghyd â'i gost;<br>• gweithio gyda gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i annog hyrwyddiad a defnydd o wasanaethau byw'n annibynnol yn cynnwys grantiau DFG; a<br>• gwella ansawdd ac ystod y wybodaeth a ddarparir i ymgeiswyr drwy gynhyrchu gwybodaeth am y gwasanaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau. | Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y gwaith o fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella ond mae nifer heb eu rhoi ar waith o hyd.<br>Ym mis Chwefror 2012, daeth y Cabinet i benderfyniadau'n ymwneud â newidiadau i gymorth grant a chymorth drwy fenthyciadau. Mae'r newidiadau hyn wedi rhyddhau cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r llwyth achosion wrth gefn. Ychwanegwyd £0.5 miliwn ychwanegol at y rhaglen gyfalaf i gynorthwyo gyda'r galw yn y dyfodol. Hefyd, ceir Rheolwr Therapi Galwedigaethol sy'n cael ei rannu ag Iechyd. Gwelodd y Cyngor rywfaint o welliant yn amserau aros DFG. Yn 2010, nodwyd bod y mesurau ariannol a gweinyddol yn yr adran DFG yn 'anfoddhaol'; yn sgil archwiliad yn 2011, graddiwyd y systemau fel rhai 'da'. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno taenlen i fonitro statws a chynnydd grantiau DFG unigol. Ar hyn o bryd, dim ond i amserau cyflenwi grantiau DFG y mae'r mesurau'n berthnasol.<br>Ymhlith y cynigion sy'n disgwyl eu gweithredu o hyd, mae caffael, gweithio gyda gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, gwella gwybodaeth i ymgeiswyr a sefydlu fforwm contractwyr.<br>Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo fynd i'r afael â'r cynigion hyn.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 16. Mae'r gwasanaethau rheoli gwastraff yn gwella'n gyson; gall y Cyngor wella'r trefniadau ymhellach trwy:<br>• Gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff sy'n dangos cyfeiriad strategol y gwasanaeth o ran cyflawni canlyniadau ynghyd â llinell amser sy'n ymestyn dros dair blynedd o leiaf ar gyfer gweithredu mentrau rheoli gwastraff ac er mwyn cynllunio cyllideb amlinellol.<br>• Adnewyddu proffil a gwella gwaith marchnata gwasanaethau gwastraff er mwyn gwella cyfranogiad mewn ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff. | Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff Integredig i'w chymeradwyo erbyn diwedd 2012. Bydd y strategaeth yn ymdrin â'r meysydd canlynol: gwella busnes; gweithgarwch gwerth am arian; trefniadau caffael cerbydau; optimeiddio llwybrau casglu sbwriel; dull unedig o ailgylchu bwyd a gwastraff domestig arall; Prosiect Gwyrdd ac atebion cydweithredol ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol er mwyn osgoi tirlenwi; cynaliadwyedd; rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth; cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu.<br>Mae gan y Cyngor raglen o weithgareddau marchnata yn cynnwys themâu. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2012, y thema oedd gwastraff gardd. Bellach, mae ganddo staff cysylltiadau cyhoeddus o fewn Wastesavers, ei dîm Addysg a Gorfodi ei hun, ac mae'n gweithio gyda Rhaglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflawniad y targedau 'Dyfodol Diwastraff'. |
| • Dod o hyd i gyfleoedd i gynyddu ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff mewn amwynderau gwastraff cartref a safleoedd dod â gwastraff. Gan mai nifer cymharol fach o'r cyfleusterau hyn a ddarparwyd, dylai'r Cyngor ystyried datblygu safleoedd newydd. | Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn datblygu ei Strategaeth Rheoli Gwastraff Integredig, ac o'r herwydd, mae'n rhy fuan i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â chynigion.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |
| 17. Gwella'r gwaith o asesu perfformiad drwy sicrhau bod:<br>• cynlluniau gwasanaethau yn cynnwys fframwaith i werthuso pa mor dda y darparwyd gwasanaeth a nodi'r effaith a gyflawnwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, ac yng nghyd-destun amcanion blaenoriaeth y Cyngor;<br>• gwerthuswyd pob adroddiad i Aelodau gan swyddogion ac mae cofnodion cyfarfodydd yn dynodi asesiadau'r Aelodau o'r wybodaeth a gyflwynwyd; a<br>• mae mynediad ar gael yn hawdd i wybodaeth berthnasol ar y | Gweler hefyd y cynigion ar gyfer gwella 1, 8 a 12 uchod.<br>Er bod y Cyngor yn mabwysiadu RBA, mae gwaith pellach i'w wneud o hyd er mwyn datblygu mesurau perfformiad eglur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i alluogi'r Cyngor werthuso pa mor dda y darparwyd y gwasanaeth a'i effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>Bellach mae adroddiadau i'r Aelodau yn cynnwys cyfraniadau gan benaethiaid gwasanaeth perthnasol a chyfarwyddwyr corfforaethol.<br>Dywed y Cyngor bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi trafodaethau'n gywir.<br>Ym mis Gorffennaf 2012, cytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Bwrdd Perfformiad a'i gadarnhau'n ffurfiol gan y Cabinet. Mae adroddiadau a chofnodion rhan 1 bellach ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| wefan a chaiff ei phrofi'n rheolaidd gan swyddogion. | Byddwn yn parhau i fonitro sut y mae'r Cyngor yn ymdrin â'r cynigion hyn.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |
| **Asesiad Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor, Ionawr 2012** | |
| 18. Yn 2012-13, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn:<br>• Archwilio pam y mae cyfradd atgyfeiriadau twyll yn isel a sut y caiff adnoddau i fynd i'r afael â thwyll eu rheoli gan fod nifer y sancsiynau yn isel hefyd. Mae'n bosibl hefyd y bydd cynlluniau'r Adran Gwaith a Phensiynau i greu un gwasanaeth twyll yn effeithio ar y gwasanaeth o fis Ebrill 2013 ymlaen.<br>• Archwilio pam y mae perfformiad o ran apeliadau ac ailystyriaethau wedi gostwng yn sylweddol.<br>• Gwneud cynnydd tuag at weithredu system rheoli dogfennau'n electronig.<br>• Gwneud gwaith dilynol ar unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gordaliadau.<br>**Adroddiad ar Ordaliadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai, Awst 2010**<br>Cynnal ymgynghoriad â chwsmeriaid i asesu:<br>• lefelau boddhad â'r gwasanaeth;<br>• awgrymiadau ar gyfer gwella; a<br>• rhoi gwybodaeth ar y wefan gyda'r nod penodol o annog cwsmeriaid i roi gwybod am newidiadau yn eu hamgylchiadau. | Dywed y Cyngor bod atgyfeiriadau twyll wedi gostwng o 21.48 fesul 1,000 o achosion yn 2010-11 i 16.62 fesul 1,000 o achosion yn 2011-12 ond mae nifer y sancsiynau llwyddiannus fesul 1,000 o achosion wedi cynyddu o 3.53 yn 2010-11 i 4.26 yn 2011-12.<br>Mae perfformiad ar apeliadau wedi gwella yn 2011-12:<br>• cyflwynwyd wyth y cant o achosion i'r gwasanaeth apeliadau o fewn pedair wythnos; a<br>• cyflwynwyd 33 y cant o achosion i'r gwasanaeth apeliadau o fewn tri mis.<br>Rhoddwyd y system rheoli dogfennau ar waith ym mis Ionawr 2011 ac mae'n cynnwys system llif gwaith integredig. Mae perfformiad o ran prosesu ceisiadau newydd a newidiadau wedi gwella ers 2008-09 ac roedd yn 10.6 diwrnod yn 2011-12.<br>Er na chynhaliwyd unrhyw arolygon ymgynghori penodol gan y Cyngor, y mae wedi ceisio barn defnyddwyr drwy'r fforymau landlordiaid a grwpiau anabledd.<br>Trefnwyd datblygiadau i'r system prosesu budd-daliadau ar gyfer diwedd 2012 i'w gwneud hi'n bosibl rhoi gwybod ar lein am newidiadau mewn amgylchiadau.<br>Byddwn yn adolygu'r meysydd hyn fel rhan o'n gwaith asesu risg o ran budd-dal tai a'r dreth gyngor.<br>**Statws: ar y gweill ac mae'r cynigion yn parhau'n agored** |

# Atodiad 2

Cynigion ar gyfer gwella a wnaed mewn adroddiadau ar wasanaethau penodol.

**Cynigion ar gyfer gwella**

**Rheoli Asedau (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012)**

C1 Dylai'r Cyngor gyflwyno strategaeth rheoli asedau effeithiol ar gyfer ei seilwaith eiddo ac asedau cysylltiedig. Dylai hon:

- egluro gweledigaeth ar gyfer pob math o ased sy'n dangos sut y byddant yn cyfrannu at amcanion y Cyngor a nodau'r gwasanaeth;
- pennu targedau ar gyfer asesu cynnydd, yn cynnwys cyflwr ac addasrwydd pob ased; a
- disgrifio cynllun cyffredinol ar gyfer cyflawni hyn.

C2 Er mwyn galluogi Gwasanaethau Eiddo i gyflawni amcanion strategol y Cyngor, mae angen iddo:

- gytuno a mynegi cyfeiriad strategol clir ar gyfer rheoli asedau sy'n nodi'r hyn y bwriada ei gyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir;
- sicrhau bod ei gynllun busnes yn cynnwys pob un o weithgareddau'r gwasanaeth newydd;
- sicrhau bod y cynllun gweithredu yn un CAMPUS[2] ac yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau; a
- gwneud yn siŵr bod cyswllt rhwng y cynlluniau adrannol a thargedau staff unigol a'r cynllun busnes ac amcanion corfforaethol er mwyn cefnogi eu cyflawniad.

C3 Rhoi rhaglen dreigl systematig ar waith ar gyfer asesu cyflwr ac addasrwydd asedau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr am holl adeiladau'r Cyngor yn cael ei chadw mewn un gronfa ddata sengl.

C4 Ffurfio strategaeth gyfalaf hirdymor, yn gysylltiedig â chyflawni amcanion y strategaeth rheoli asedau. Dylai gynnwys dull corfforaethol ffurfiol o arfarnu opsiynau mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf arfaethedig.

C5 Adolygu'r ystod gyfredol o ddata perfformiad a sicrhau bod ystod gynhwysfawr o fesurau priodol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith i reoli gwelliannau ym mhob gwasanaeth.

---

[2] System mnemonig yw CAMPUS a ddefnyddir i bennu amcanion rheoli prosiect a/neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cefnogi rheoli perfformiad effeithiol. Yn fras, mae'r llythrennau'n cyfleu'r geiriau Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

| | |
|---|---|
| C6 | Mynd i’r afael â gwendidau o ran ystod a chwmpas adroddiadau’r cynllun busnes trwy gynnwys gofynion perfformiad sylfaenol cynhwysfawr, data tueddiadau, data graddio, perfformiad cyllidebol, risg a gwybodaeth feincnodi. |
| P6 | Sicrhau bod gwybodaeth am asedau’n gyfredol, yn gyflawn, ac wedi’i chadw ar ffurf sy’n ei gwneud hi’n bosibl cynhyrchu adroddiadau rheoli priodol. |

**Adfywio (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012)**

| | |
|---|---|
| P1 | Sicrhau bod ei Strategaeth a’i Uwchgynllun Datblygu Economaidd yn ymwneud yn eglur â’r amcanion perthnasol yn y Strategaeth Gymunedol a’r Amcanion Gwella ac â’i gilydd, er mwyn helpu’r Cyngor i asesu eu cyfraniad i’w raglen wella ac i gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor. |
| P2 | Blaenoriaethu ei gamau gweithredu, a chynnwys mwy o fanylion yn gyson yn ôl y camau hynny mewn perthynas â chanlyniadau, targedau, terfynau amser, adnoddau, cerrig milltir, ffactorau risg a chamau lliniarol, y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd, mesur llwyddiant a sefydlu gwelliant. |
| P3 | Cryfhau’r broses o bennu canlyniadau a thargedau ar gyfer cynlluniau a phrosiectau adfywio, a sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad ar gael i gynnal y gwaith monitro a gwerthuso. |
| P4 | Cynnwys mwy o fanylion ynglŷn ag amser, cyllideb ac adnoddau mewn dogfennau adfywio, er enghraifft dogfennau cychwyn prosiect i’w gwneud hi’n bosibl asesu gwerth a chost-effeithiolrwydd. |